# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 2

DIGARTREFEDD

## PENNOD 2

CYMORTH I BOBL SY'N DDIGARTREF NEU
O DAN FYGYTHIAD O DDIGARTREFEDD

*Atgyfeirio at awdurdod tai lleol arall*

### 82 Dyletswyddau i geisydd y mae ei achos yn cael ei ystyried ar gyfer ei atgyfeirio neu'n cael ei atgyfeirio

(1) Pan fo awdurdod tai lleol yn hysbysu ceisydd yn unol ag adran 84 ei fod yn bwriadu hysbysu awdurdod tai lleol arall yng Nghymru neu Loegr ei fod o'r farn bod yr amodau wedi eu diwallu ar gyfer atgyfeirio achos y ceisydd at yr awdurdod arall hwnnw, neu ei fod wedi gwneud hynny—

(a) mae'n peidio â bod yn ddarostyngedig i unrhyw ddyletswydd o dan adran 68 (dyletswydd interim i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref mewn angen blaenoriaethol), aa

(b) nid yw'n ddarostyngedig i unrhyw ddyletswydd o dan adran 73 ( dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref),

ond rhaid iddo sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu hyd nes i'r ceisydd gael ei hysbysu am y penderfyniad ynghylch pa un a yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio'r achos wedi eu bodloni.

(2) Pan fydd penderfyniad wedi ei wneud ynghylch pa un a yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio wedi eu bodloni, rhaid i'r awdurdod sy'n hysbysu roi gwybod i'r ceisydd yn unol ag adran 84.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 82. (See end of Document for details)*

(3) Os penderfynir nad yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio yn cael eu bodloni, mae'r awdurdod sy'n hysbysu yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 73 (dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref).

(4) Os penderfynir bod yr amodau hynny wedi eu bodloni a bod yr awdurdod sy'n cael ei hysbysu yn awdurdod yng Nghymru, mae'r awdurdod sy'n cael ei hysbysu yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 73 (dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref); o ran y ddarpariaeth ar gyfer achosion pan benderfynir bod yr amodau hynny yn cael eu bodloni a bod yr awdurdod sy'n cael ei hysbysu yn awdurdod yn Lloegr, gweler adran 201A o Ddeddf Tai 1996 (achosion a atgyfeirir gan awdurdod tai lleol yng Nghymru).

(5) Mae'r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn dod i ben fel y darperir ar ei gyfer yn yr is-adran honno hyd yn oed os yw'r ceisydd yn gofyn am adolygiad o benderfyniad yr awdurdod (gweler adran 85).

(6) Caiff yr awdurdod sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu tra bo'r penderfyniad ar adolygiad yn yr arfaeth.

(7) Os nad yw'r hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi i geisydd o dan yr adran hon yn dod i law'r ceisydd, mae i'w drin fel pe bai wedi ei roi os yw ar gael yn swyddfa'r awdurdod am gyfnod rhesymol i'w gasglu gan y ceisydd neu ar ran y ceisydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 82 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 82 mewn grym ar 27.4.2015 gan O.S. 2015/1272, ergl. 2, **Atod. para. 33**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 82.